

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Adroddiad Effaith 2018/19

**Cyflenwi newid sy'n para i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru**



*Eleri Butler, Prif Swyddog Gweithredol*



*Paula Walters, Cadeirydd*

# Gair gan ein Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol: blwyddyn o adfyfyrio, heriau a thwf

"Efallai na allwch reoli'r holl bethau sy'n digwydd i chi, ond gallwch benderfynu peidio â gadael iddyn nhw eich lleihau chi."
– Maya Angelou

Yn 2018-19, buom yn coffáu pedwar degawd o weithio fel corff ymbarél Cymru yn darparu cymorth, arweinyddiaeth a chynrychiolaeth i rwydwaith cenedlaethol o wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Rydym ni'n parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn gallu bodloni'r galw cynyddol am gymorth yng Nghymru ac rydym ni hefyd yn eiriol dros yr angen hanfodol i atal cam-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae darparu llais i'r gwasanaethau arbenigol a'r teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw yn ein helpu ni i alw am drawsnewid cyfreithiau, polisïau ac ymarfer er budd goroeswyr cam-drin. Mae ein gwaith gydag asiantaethau eraill a Llywodraethau wedi cynyddu wrth i'n heffaith dyfu, ac rydym ni bellach yn cydweithio, hysbysu, cefnogi a dylanwadu'n weithredol mewn cymunedau ac ar draws llywodraethau a chyrff eraill.

Mae'r ffaith nad ydym ni eto wedi gallu gwneud digon i'w leihau a'i atal yn dweud rhywbeth am statws menywod a merched yn ein cymdeithas ac am hirbarhad a normaleiddio trais a cham-drin yn ein cymunedau.

Yn 2018-19, parhaodd gwasanaethau arbenigol ar draws Cymru i weithio'n ddiflino i gefnogi goroeswyr a herio a newid systemau a gwasanaethau fel bod cam-drin yn cael ei atal. Hefyd fe sefydlon ni sail ehangach o gefnogwyr mewn cymunedau drwy ein rhaglen llysgenhadon "Gofyn i fi" ac ymgyrch 'Amser ar Ben' i herio a dileu aflonyddu a cham-drin rhywiol fel rhan o symudiad ehangach dros newid. Ceir tystiolaeth o lawer o'n llwyddiannau a'n heffaith drwy'r adroddiad hwn.

Fodd bynnag, ar gyfer gwlad sydd â deddfau, strategaethau a chynlluniau cryf i atal trais yn erbyn menywod a merched, yn drasig mae o leiaf 13 o ferched wedi'u lladd yng Nghymru er 2018 hyd yn hyn, trwy drais angheuol gan ddynion. Er 2015 pan ddeddfwyd deddfwriaeth newydd yng Nghymru i atal trais yn erbyn menywod, mae o leiaf 38 o ferched wedi'u lladd yng Nghymru o ganlyniad i drais gwrywaidd angheuol. Y llynedd, roedd gormod o oroeswyr yn cael eu dal ar restrau aros am gymorth tra bo gwasanaethau'n gweithredu gydag adnoddau annigonol i gwrdd â'r galw. Does gan blant a phobl ifanc ddim mynediad cyfartal at gymorth a chefnogaeth arbenigol ym mhob rhanbarth, ac mae llawer o fenywod o gymunedau lleiafrifol yn dal i gael eu gadael i lawr gan 'amgylchedd gelyniaethus' y wladwriaeth sy'n golygu bod menywod yn wynebu'r dewis ofnadwy o aros gyda'r sawl sy'n eu cam-drin neu wynebu amddifadrwydd.

Mae'n bryd cael ymagwedd newydd. Eleni, aethom ni ati i greu cynllun newid tymor hir. Gyda'n haelodau, goroeswyr, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill, creom ni gynllun 5 mlynedd newydd ar gyfer 2019-2024, sy'n egluro sut y gellir gosod seiliau newid sy'n para. Fe wyddom fod modd atal trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn llwyr gyda'r ewyllys cyhoeddus a gwleidyddol angenrheidiol ac adnoddau digonol i gyflawni'r nod hwn.

Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Os ydych chi'n credu bod gan bawb yng Nghymru'r hawl i fyw'n rhydd rhag ofn a cham-drin ac y gallwn gyflawni hyn drwy gydweithio, ymunwch â'n mudiad. Gallwch weld sut i gefnogi ein gwaith yn www.welshwomensaid.org.uk/join-us/



*Eleri Butler, Prif Swyddog Gweithredol*



*Paula Walters, Cadeirydd*

Rydym ni am gael byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd rhag cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod, a thrwy wneud hynny gyflawni annibyniaeth a rhyddid, yn rhydd rhag gormes.

# Ein ffederasiwn

Sail cryfder Cymorth i Ferched Cymru yw ei bod yn elusen ffederal, sy'n gwneud y defnydd gorau o fuddion plwyfoldeb gyda graddfa genedlaethol, y DU ac Ewropeaidd a llais cynrychioliadol. Er ein bod yn annibynnol o wasanaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, mae ein strwythur yn darparu manteision bod yn 'fach ac yn lleol' gyda dylanwad cenedlaethol, gan gyfuno ymagwedd 'o'r llawr i fyny' gyda strwythur cydweithredol cenedlaethol sy'n fuddiol i'r holl wasanaethau.

Eleni buom yn cyflenwi rhaglen benodol ar gyfer adeiladu capasiti a sgiliau'r sector, a pharhaom ni i weithredu'r fframwaith Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru sy'n cyd-fynd â safonau'r sector ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol, ymyriadau cyflawnwyr, a chymorth arbenigol i fenywod Du a lleiafrifol.

Mae goroeswyr yn ganolog yn ein rhwydwaith, drwy ein gwaith ymgysylltu a thrwy'r nifer o oroeswyr benywaidd a gaiff eu cyflogi yn ein gwasanaethau a'n tîm cenedlaethol. Fel corff ymbarél Cymru, rydym ni hefyd yn cydweithio gyda darparwyr eraill sy'n rhannu ac yn cefnogi ein nodau, ac rydym ni'n cydlynu Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol rhanbarthol i gyflwyno arbenigedd cydlynol i wella strategaeth, ymarfer a pholisi, ac yn cefnogi aelodau i gydweithio i fodloni anghenion amrywiol goroeswyr.

Mae ein ffederasiwn cenedlaethol yn rhannu gweledigaeth, sail gwerthoedd ac ymagwedd, ac mae buddsoddi mewn strwythur ffederal yn cynnig cyfuniad o effaith elusennau unigol a mantais effaith cyfunol, gwydnwch a chryfder fel mudiad.

Rydym ni'n ffeministaidd ac yn rhoi gwerth ar amrywiaeth profiadau bywyd. Mae ein gwerthoedd yn seiliedig ar ymrwymiadau i hawliau dynol, gwrth-wahaniaethu a rhyddid rhag gormes, ac rydym ni'n hyrwyddo gonestrwydd, yn cydweithio, grymuso a thrawsnewid, gan gyfuno gwasanaeth ansawdd uchel ag actifiaeth i sicrhau newid cymdeithasol.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae ein gwerthoedd yn sail ar gyfer ein Cynllun 5 Mlynedd, ein blaenoriaethau a'n hymagwedd yn www.welshwomensaid.org.uk/about/strategic-plan/

Gyda'n gilydd, rydym ni'n darparu rhaglen gref, wedi'i datblygu'n dda a chydlynol o waith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er budd goroeswyr i greu dyfodol mwy diogel, iachach, mwy cyfartal a rhydd rhag trais i bawb.

"Mae'r gwerthoedd a'r dadansoddiad cyffredin o drais yn erbyn menywod, a bod yn aelod o gorff cenedlaethol sydd â'r un dadansoddiad o faterion penodol o'r gwerth mwyaf i ni."

**- Gwasanaeth Arbenigol Lleol**

# 2018-19: ein blwyddyn ar waith

## Cefnogaeth Aelodau

**100%**
Cafwyd 100% adborth cadarnhaol gan yr holl aelodau a gefnogwyd

**2,482**
Cefnogwyd 2,482 o oroeswyr gan wasanaethau lloches ein haelodau

**22**
Cefnogwyd 22 o sefydliadau gyda chymorth pwrpasol i adeiladu capasiti a phartneriaeth.

**16,591**
Cefnogwyd 16,591 o oroeswyr gan wasanaethau cymunedol ein haelodau

**1,332**
Cefnogwyd 1,332 o oroeswyr mewn gwasanaethau trais rhywiol/trais argyfwng arbenigol.

## Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol

Bu 8 o bob 10 gwasanaeth yn ymwneud â'r safonau ansawdd hyn ac mae gan dros hanner achrediad llawn ar gyfer rhagoriaeth mewn cyflwyno gwasanaethau.

## Cymorth uniongyrchol i oroeswyr

### Llinell Gymorth Byw heb Ofn

Cafwyd 31,983 cyswllt â Llinell Gymorth Byw heb Ofn am help a chefnogaeth, roedd 94% dros y ffôn, a'r gweddill drwy sgwrsio gwe, ebost a neges destun. Sicrhaodd ein tîm fod 96% o'r galwadau i'r Llinell Gymorth yn cael eu hateb o fewn 30 eiliad.

**96%**
**30 EIL**

Dywedodd 100% o'r defnyddwyr gwasanaeth a roddodd adborth eu bod wedi cael atgyfeiriad at gymorth priodol a bod yr wybodaeth/cyngor a gafwyd yn cefnogi eu dewisiadau.

**100%**

### Ein gwasanaethau arbenigol

**36** o fenywod
**28** o blant

Cefnogodd ein gwasanaethau arbenigol 36 o fenywod a 28 o blant mewn lloches. Cafodd 757 o fenywod ac 16 o ddynion eu cefnogi yn y gymuned.

### Ymgysylltu goroeswyr

Elwodd 37 o oroeswyr o'r Prosiect Cyfranogi Cenedlaethol i Oroeswyr.

**37** o oroeswyr

## Hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth

**69** o sesiynau hyfforddi

**650** o ddysgwyr

**46** o hanesion llafar & straeon digidol

### Partneriaeth Hyfforddi Genedlaethol

Cyflwynwyd 69 o sesiynau hyfforddi, gyda thros 650 o ddysgwyr yn cael hyfforddiant. Pan ofynnwyd am y profiad hyfforddi cyffredinol dywedodd 94% fod yr hyfforddiant yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol' a dywedodd 90% y bydden nhw'n argymell yr hyfforddiant i bobl eraill[1].

### Deugain Llais, Deugain Mlynedd

46 o hanesion llafar a straeon digidol gan actifyddion, goroeswyr a staff a fu'n ymwneud â'r mudiad rhyddid i fenywod yng Nghymru dros y 40 mlynedd ddiwethaf. Daeth 5,648 o bobl yng Nghymru i'r arddangosfa deithiol a gwelodd dros 14,500 o ymwelwyr amgueddfa'r arddangosfa derfynol.

## Atal

### Newid sy'n Para

hyfforddwyd 41 o gyfranogwyr yn llwyddiannus i fod yn llysgenhadon Prosiect Gofyn i Fi. Siaradodd y llysgenhadon â 5,718 o aelodau cymunedol drwy weithgareddau codi ymwybyddiaeth gan gyfeirio 87 o oroeswyr a 19 o gyflawnwyr at wasanaethau cefnogi VAWDASV.

## Dylanwad strategol

Ymatebwyd i gyfanswm o 11 ymgynghoriad yng Nghymru a'r DU gan gynnwys adborth goroeswyr a gwasanaethau arbenigol. Cefnogodd Cymorth i Ferched Cymru ymgyrchoedd 'Amser ar Ben' a 'Nid cariad yw hwn, ond rheoli'; a gweithredodd fel arweinydd Cymru ar Ymgyrch WAVE Ewrop 'Camu Ymlaen!' 2019.

**11** ymgynghoriad

NODIADAU

1 Cafwyd adborth gan 392 o ddysgwyr.

# Deugain Mlynedd, Deugain Llais

**Enillodd ein prosiect '40 Voices 40 years 'Wobr Effaith genedlaethol am gyfrannu at dreftadaeth Diwylliant a'r Celfyddydau yng Nghymru.**

Y llynedd arweiniom ni brosiect treftadaeth a gafodd ganmoliaeth eang, mewn partneriaeth gyda Phrifysgol De Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru, i gadw a dathlu straeon a phrofiadau menywod a fu'n rhan o'n mudiad Cymorth i Ferched Cymru dros y 40 mlynedd ddiwethaf.

Mae hyn hefyd wedi creu amserlen o eiliadau hanesyddol allweddol yn ymwneud â mudiad Cymorth i Ferched Cymru ac aethom ati i lunio archif cynhwysfawr yng Nghasgliad y Werin a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Byddwn yn parhau i ychwanegu at hwn yn y dyfodol, i ddarparu adnodd gwerthfawr sylweddol i genedlaethau'r dyfodol.

> "Gellir defnyddio straeon hefyd i rymuso, a dyneiddio. Gall straeon dorri urddas pobl. Ond gall straeon hefyd adfer yr urddas toredig hwnnw."
>
> **- Chimamanda Adichie**

**46** o hanesion llafar a straeon digidol gan actifyddion, goroeswyr ac eraill fu'n rhan o fudiad Cymru dros y 40 mlynedd ddiwethaf.

**18** Cyfrannodd 18 o oroeswyr 22 o straeon o weithdai adrodd straeon digidol.

**68** Cefnogodd 68 o wirfoddolwyr y prosiect, a darparwyd 100 o ddiwrnodau gwirfoddoli.

**5,648** Ymgysylltodd 5,648 o bobl â'r arddangosfa deithiol, a gwelodd 14,500 yr arddangosfa derfynol.

**DROS 20,000** Daeth dros 20,000 o bobl i arddangosfeydd a darlithoedd yn eu cymunedau lleol gan rannu dysgu am ein mudiad, y llwyddiannau a pham fod angen gwasanaethau o hyd.

**DROS 10,000** Cafodd dros 10,000 o bobl wybodaeth am y prosiect drwy adnoddau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol.

> "Atgoffodd fi pa mor ddiweddar y gwnaed unrhyw gynnydd – ganwyd fi yn 1933 ac rwy'n cymryd llawer yn ganiataol. Cynllun gwych a hawdd ei ddilyn, a phrif neges glir. Diolch."

> "Amlygodd pa mor ddiweddar yw'r hanes hwn a faint o waith sydd ar ôl i'w wneud."

> "Gwnaeth fi'n fwy penderfynol i weithio i ddileu trais yn erbyn menywod."

> "Daeth fy ffrind â fi heno i ddangos i fi nad wyf i ar ben fy hun a chodi llais dros fy nyfodol. Digon yw digon. Gadewch i ni rymuso'n gilydd."




## Dyfodol 40

**Yn ystod y flwyddyn hefyd fe ofynnon ni i'r cyhoedd ddweud wrthym ni am eu blaenoriaethau ar gyfer dileu trais yn erbyn menywod a merched yng Nghymru, fel nad ydym ni'n ymdrin â'r un materion ymhen 40 mlynedd arall.**

Cawsom ymateb hynod o frwd gan gannoedd o bobl a ddywedodd wrthym ni bod eu blaenoriaethau'n cynnwys darparu addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion a chymunedau gyda chefnogaeth i blant, ymdrin ag anghydraddoldeb ac agweddau cymdeithasol niweidiol, cael arweinwyr a hyrwyddwyr ymrwymedig yn ein gwasanaethau a'n cymunedau, mwy o ffocws ar ymyrryd cynnar ac atal, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y goroeswr, sy'n gwbl hygyrch ac yn deall trawma, cyllid cynaliadwy a sicr ar gyfer gwasanaethau cymorth, ymyriadau diogel gyda chyflawnwyr i newid eu hymddygiad a diwygio ymateb y system cyfiawnder i gam-drin domestig a rhywiol.

Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd eu profiadau, eu gwrthrychau a'u harteffactau a'u hamser, i'n helpu i gasglu deunyddiau a churadu'r arddangosfa deithiol hon.
Ceir adroddiad ar y prosiect yma: www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/40-voices-40-years/

“Bu’n rhyfeddol gallu cysylltu gyda grŵp o oroeswyr sy’n rhagweithiol ac yn gefnogol a chael teimlad y gallaf droi’r trawma rwyf wedi bod drwyddo yn rhywbeth cadarnhaol. Mae’n teimlo’n rymusol y gallaf wneud gwahaniaeth drwy ddylanwadu ar benderfynwyr a darparwyr gwasanaeth i wella’r ffordd maen nhw’n delio â thrais yn erbyn menywod.”

**- Goroesydd, SEEdS 2019**

“Roeddwn i’n rhan o’r tîm a ddatblygodd Strategaeth Cyngor Caerdydd, gan lywio ei chynnwys a’i strwythur o safbwynt goroesydd. Mae fy hyder a fy mhrofiad wedi tyfu ac rwyf i wedi cael cyfle i rannu fy marn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.”

**- Goroesydd, SEEdS 2019**

# Ymgysylltu goroeswyr:
## arbenigwyr drwy brofiad bywyd

Goroeswyr sydd wrth galon ein rhwydwaith a’n mudiad: goroeswyr sylfaenodd ein gwasanaethau, ac maen nhw’n parhau i weithio mewn gwasanaethau cymorth ac arwain gwaith ein ffederasiwn, ac rydym ni’n sicrhau bod profiadau goroeswyr yn ganolog wrth gynllunio, cyflwyno ac adolygu ein gwasanaeth.

Parhaodd ein Prosiect Cyfranogi cenedlaethol arloesol i Oroeswyr – Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (“SEEdS”) – i addysgu gwasanaethau i wella eu hymateb i gam-drin domestig a rhywiol drwy gydol y flwyddyn.

Roedd gwaith SEEdS yn genedlaethol yn cynnwys cyfrannu at sefydlu fframwaith ymgysylltu cenedlaethol Llywodraeth Cymru i oroeswyr, i ddarparu cyngor arbenigol i ddylanwadu ar gyfeiriad ymgyrchoedd cenedlaethol, cynghori’r Grŵp Trawsbleidiol ar blant a phobl ifanc, cyflwyno yng Nghynhadledd Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus, ymgymryd â nifer o gyfweliadau ar y cyfryngau a chyfrannu at adolygiadau strategol a digwyddiadau gwasanaethau cyhoeddus.

Mae’r model hwn o ymgysylltu, dan arweiniad ac er budd oroeswyr, yn cynnig y cyfle i fenywod ddatblygu a gwella sgiliau er mwyn dylanwadu a llywio amrywiaeth eang o sefydliadau a rhanddeiliaid sy’n ceisio gwella eu hymateb i gam-drin. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein tudalen gwe SEEdS.

**Y llynedd, roedd 17 o fenywod yn aelodau craidd o SEEdS gan rannu eu gwybodaeth a’u profiad gyda 20 o oroeswyr eraill mewn rhanbarthau eraill.**

“Pan fyddwn ni’n siarad, rydym ni’n ofni na fydd ein geiriau’n cael eu clywed na’u croesawu ond pan fyddwn ni’n dawel, rydym ni’n dal i ofni, felly mae’n well siarad.”

**- Audre Lorde**



“Rwy’n llawn cyffro am bopeth sydd wedi digwydd ers cysylltu â chi. Po fwyaf rwyf i’n deall am SEEdS y mwyaf cyffrous rwy’n teimlo. Gallen ni ddim fod wedi gobeithio am fwy nag y cyflwynoch chi. Roedd y ddwy ohonoch chi [Aelodau SEEdS] yn wych ac yn ysbrydoliaeth.”

**- Trefnydd Cyfarfod Iwerddon, 2018**

**Y llynedd ehangodd ein cyrhaeddiad a’n harbenigedd ar ymgysylltu goroeswyr, a chyflwynwyd ein dysgu mewn digwyddiadau trais yn erbyn menywod yn Ewrop, ac yn lansiad cynlluniau cydraddoldeb menywod Ffederasiwn Rwsia.**

Gwahoddwyd menywod SEEdS hefyd i rannu eu profiad yng Ngogledd Iwerddon gydag amrywiol oroeswyr, rhanddeiliaid arbenigol yn y sector a Chyngor Cenedlaethol Menywod Iwerddon. Cafwyd ymateb cadarnhaol a dylanwad ar sefydlu modelau tebyg yn Iwerddon.

Rydym ni’n credu bod ymgysylltu goroeswyr diogel ac effeithiol yn hanfodol ac rydym ni wedi llunio meincnod ymarfer da o ran ymgysylltu goroeswyr (https://gov.Cymru/written-statement-national-survivor-engagement-framework-next-steps) i asiantaethau sy’n sefydlu safonau diogel ar gyfer ymgysylltu i wasanaethau sy’n dymuno llunio polisïau ac arferion sy’n cael eu llywio gan oroeswyr. Caiff hyn ei hyrwyddo yn 2019/20.

Yn y cyfamser, rydym ni’n parhau i eiriol dros yr angen i’r wladwriaeth a gwasanaethau yng Nghymru weithredu’r argymhellion a wnaed gan oroeswyr cam-drin ar draws Cymru, i lywio’r Strategaeth Genedlaethol, fel y’i nodwyd yn ein hadroddiad “Ydych Chi’n Gwrando ac Ydw i’n cael fy Nghlywed”.

“Mae bod yn aelod o brosiect SEEDS wedi bod yn fanteisiol i mi mewn llawer o ffyrdd. Mae bod mewn grŵp o bobl sydd i gyd wedi cael profiadau tebyg, ond y mae eu straeon i gyd mor wahanol, lle nad yw difrifoldeb yr hyn rydym ni wedi’i brofi’n cael ei gwestiynu a does neb yn beirniadu neb arall, yn gwella ac yn grymuso. Cafwyd cynifer o gyfleoedd i ddysgu gan ein gilydd, a thrwy hyfforddiant eithriadol, ddysgu ochr yn ochr â’n gilydd. Mae’r amrywiaeth o ddigwyddiadau, ymgynghoriadau, paneli polisi a strategaeth, cyfweliadau, cynadleddau a chyflwyniadau grant, i enwi ychydig yn unig, rydym ni wedi cyfrannu atynt yn rhyfeddol. Mae’n dangos bod lleisiau goroeswyr, sy’n arbenigwyr drwy brofiad bywyd, yn cael eu clywed, ac yn gynyddol eu holi.”

**- Goroesydd, SEEdS 2018**

# Darpariaeth, Diogelwch a Chymorth

## Llinell Gymorth Byw heb Ofn

Dechreuodd y Llinell Gymorth 2019 – ein pymthegfed flwyddyn o weithredu'r Llinell Gymorth Genedlaethol yng Nghymru i oroeswyr cam-drin domestig a rhywiol sydd wedi ennill gwobrau – drwy sicrhau achrediad Safon Llinell Gymorth y diwydiant unwaith eto am ragoriaeth am gyflenwi gwasanaeth.


Mae'r gwasanaeth cenedlaethol hwn yn ategu ac yn ehangu darpariaeth a chyrhaeddiad gwasanaethau lleol a gall hefyd gefnogi goroeswyr cam-drin wrth iddyn nhw aros am fynediad at gwnsela neu grwpiau lleol. Mae'r tîm yn cydlynu ac yn rheoli cronfa ddata Routes to Support y DU yn benodol i Gymru, ac mae gan y gwasanaeth lwybrau atgyfeirio cadarn i gynorthwyo goroeswyr cam-drin yn eu cymuned leol.

Caiff holl Weithwyr Cymorth Llinell Gymorth Byw heb Ofn eu hyfforddi mewn sgiliau i gefnogi menywod, dynion a phobl ifanc y mae cam-drin wedi effeithio arnyn nhw, boed yn drais gan bartner agos, trais teuluol, treisio neu drais rhywiol, priodas dan orfod, stelcio neu aflonyddu, masnachu pobl neu gam-fanteisio rhywiol. Mae'r Llinell Gymorth hefyd ar gael i weithwyr proffesiynol, ffrindiau a theuluoedd sy'n poeni am rywun maen nhw'n ei adnabod.

**Yn 2018-19, cafwyd 31,983 cyswllt â Llinell Gymorth Byw heb Ofn i gael help a chefnogaeth, roedd 94% dros y ffôn, a'r gweddill drwy sgwrsio gwe, ebost a neges destun. Sicrhaodd ein tîm fod 96% o'r galwadau i'r Llinell Gymorth yn cael eu hateb o fewn 30 eiliad, ac rydym ni hefyd yn falch fod sgyrsiau gwe a chysylltiadau neges destun wedi cynyddu'n sylweddol ers iddyn nhw gael eu lansio'r flwyddyn flaenorol.**

"Rwy'n gwerthfawrogi eich help ac mae'r gwasanaeth hwn yn rhagorol, yr unig un o'i fath yn y DU, rwy'n gwybod oherwydd rwyf i wedi chwilio ym mhobman. Rydych chi'n gwneud gwaith anhygoel, diolch."

"Rwy'n galw'n ôl i ddweud diolch. Rwy wir yn gwerthfawrogi. Diolch cymaint am fy helpu, bod yna a chredu fi. O leiaf mae pobl yn dechrau gwrando."




**Rydym ni'n derbyn adborth yn rheolaidd gan y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth. O sampl o 432 defnyddiwr gwasanaeth y llynedd, adroddodd pob un eu bod wedi eu cefnogi i gyrchu cymorth priodol a bod yr wybodaeth a gafwyd yn cefnogi eu dewisiadau, adroddodd 89% eu bod yn teimlo'n fwy diogel ar ôl cysylltu, adroddodd 91% well llesiant emosiynol a nododd 88% leihad yn y cam-drin a brofwyd, ar ôl cysylltu â'r Llinell Gymorth.**

**Hefyd derbyniodd Llinell Gymorth Byw heb Ofn adborth cadarnhaol 100% gan ein holl bartneriaid asiantaeth yn ystod y cyfnod hwn.**

"Does dim y fath beth â brwydr dros un pwnc oherwydd dydyn ni ddim yn byw bywydau un pwnc."

**- Audre Lorde**

## Live Fear Free Helpline
## Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Gallwch gael cymorth drwy ein gwasanaeth ebost uniongyrchol: **info@livefearfreehelpline.cymru**

Siaradwch gyda rhywun yn gyfrinachol ar wasanaeth sgwrsio byw Byw heb Ofn. Mae sgwrsio byw ar gael 24 awr. Gallwn ni eich cefnogi yn Gymraeg, Saesneg ac unrhyw ieithoedd eraill yn defnyddio LanguageLine.

Gall defnyddwyr ffôn testun gysylltu â ni drwy Type Talk ar 18001080880108000.

Gallwch gysylltu â Llinell Gymorth Byw heb Ofn drwy neges destun 24/7 ar 078600 77 333.








“Does dim geiriau i fynegi cymaint gwell rwy'n teimlo am y tro cyntaf mewn misoedd, rwy'n teimlo y gallaf adennill reolaeth, diolch cymaint i chi.”

## Cefnogi gwasanaethau arbenigol yng Nghymru

**Yn 2018-19 parhaodd y dau ddeg dau o aelod-sefydliadau yn ein ffederasiwn i gyflenwi cymorth oedd yn achub bywydau ac yn newid bywydau ar draws y wlad i oroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a merched.**

> “Dwyf i ddim yn rhydd tra bo unrhyw fenyw ar ôl nad yw’n rhydd, hyd yn oed pan fydd ei gefynnau’n wahanol iawn i fy rhai i.”
>
> **- Audre Lorde**

Mae ein haelodaeth yn amrywiol a chymysg o ran maint a chwmpas, i gydnabod bod goroeswyr cam-drin – yn enwedig menywod a merched – yn aml yn profi ffurfiau cronnol a lluosog o drais gan wrywod yn eu bywyd. Nid yw eu profiadau’n digwydd mewn silos ac ni ddylid cyflwyno gwasanaethau fel hynny chwaith.

Mae ein haelodaeth yn cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig sy’n cynorthwyo menywod a phlant, gwasanaethau treisio argyfwng a chymorth i oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol sy’n oedolion. Mae llawer o wasanaethau nawr hefyd yn cynorthwyo goroeswyr sydd â thrais teuluol wedi effeithio arnyn nhw neu ddioddefwyr cam-drin sy’n wrywaidd gan gadw darpariaeth ddiogel ar wahân i fenywod. Mae rhai’n benodol yn cynorthwyo menywod sydd wedi dioddef cam-fanteisio drwy buteindra, neu’n cynorthwyo menywod yn y system gyfiawnder, ac mae eraill wedi’u hachredu i weithio gyda chyflawnwyr i reoli risg a newid ymddygiad. Mae rhai gwasanaethau hefyd yn gweithio i atal aflonyddu rhywiol mewn cymunedau a gweithleoedd a mynd i’r afael a cham-fanteisio.

Yn 2018/19, parhaom ni i gyflwyno Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru, cynllun achredu i wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru sy’n ategu fframweithiau safonau gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli i wasanaethau yng Nghymru sy’n cyflwyno cymorth cam-drin rhywiol, gan weithio gyda chyflawnwyr neu gyflwyno gwasanaethau arbenigol ‘gan ac ar gyfer’ BME.

Y llynedd, cafodd pob sefydliad gymorth pwrpasol yn cynnwys pob agwedd ar redeg y corff, gan gynnwys polisi, y cyfryngau, adnoddau dynol a chymorth i gyflenwi gwasanaeth. Roedden ni hefyd yn cynnig adeiladu capasiti gwell i helpu gwasanaethau i ymgysylltu â chomisiynu, uchafu eu hadnoddau, gwella cynllunio strategol a llywodraethu, a datblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

Fel corff ymbarél Cymru, rydym ni hefyd yn cydweithio ac yn cefnogi darparwyr eraill sy’n rhannu ein nodau. Rydym ni’n cydlynu Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol rhanbarthol i gyflenwi arbenigedd cydlynol i wella ymarfer a pholisi, a chynorthwyo aelodau i gydweithio i fodloni anghenion amrywiol y goroeswyr.

## Y Llynedd 2018/19

**2,482**
Cafodd 2,482 o oroeswyr eu cefnogi gan wasanaeth lloches ein haelodau; a chafodd 16,591 o oroeswyr gefnogaeth gan wasanaethau cymunedol ein haelodau. Cafodd 1,332 o oroeswyr eraill eu cefnogi mewn gwasanaethau trais rhywiol/treisio argyfwng.

**8 in 10**
Bu 8 o bob 10 gwasanaeth yn ymwneud â’r safonau ansawdd, cynnydd sylweddol ar y flwyddyn flaenorol; mae gan dros hanner achrediad llawn am ragoriaeth cyflwyno gwasanaeth.

> “Proffesiynol, cydweithredol, agored... rwyf i wedi cael cymaint o gyswllt yn cynnig cymorth mewn gwahanol feysydd, cyfeillgar iawn, agored a chynorthwyol.”
>
> **- Gwasanaeth Arbenigol Lleol**



> “Roedd hi’n nos a chyrhaeddais i’n hwyr, felly dim llawer o amser i deimlo croeso fel byddai wedi bod pe bawn i’n gynharach...Teimlo’n fwy diogel nawr mod i’n nabod pawb yma.”
>
> **- Goroesydd**

> “Roedden nhw mor groesawgar ac yn cydymdeimlo gyda fy sefyllfa i.”
>
> **- Goroesydd**

> “Rwy’n credu bod y staff yn y lloches yn gwneud gwaith rhyfeddol ac rwyf i mor ddiolchgar am yr holl gymorth rwyf i wedi’i dderbyn.”
>
> **- Goroesydd**

> “Diolch am fy helpu i gael fy mywyd yn ôl ar y trywydd cywir drwy eich gwasanaeth cymorth rhagorol. Rwy’n ddiolchgar iawn i chi i gyd.”
>
> **- Goroesydd**

## Gwasanaethau uniongyrchol

**Yn 2018-19, parhaom ni i gefnogi goroeswyr drwy ddau wasanaeth a reolir yn uniongyrchol gennym ym Mae Colwyn a Wrecsam, sy’n darparu cymorth i 36 o fenywod a 28 o blant mewn llochesi a chafodd cyfanswm o 757 o fenywod a 16 o ddynion gefnogaeth yn y gymuned.**

Ein cynllun tymor hir fu cynnal ac adeiladu capasiti’r gwasanaethau hyn, i gryfhau eu heffaith yn y rhanbarth. O ddechrau 2019-20 ymlaen, yn unol â’n cynllun strategol, trosglwyddwyd prosiectau Bae Colwyn a Wrecsam yn llwyddiannus i ymuno ag un o’n haelod sefydliadau, DASU Gogledd Cymru.

Gofynnwyd i oroeswyr a ddefnyddiodd wasanaethau Wrecsam a Cholwyn ddarparu adborth ar y gwasanaethau a gyrchwyd. Yn gyffredinol, pan ofynnwyd iddyn nhw a oedden nhw’n ‘teimlo’n fwy diogel ac yn teimlo y gallen nhw gyfrannu at eu diogelwch eu hunain/pobl eraill’, dywedodd 97% o oroeswyr[1] eu bod yn teimlo’n fwy diogel.

Dywedodd 100% o oroeswyr[2] a ddefnyddiodd wasanaethau lloches eu bod yn teimlo’n fwy hyderus ‘yn rheoli llety, perthnasoedd gyda phobl eraill, teimlo’n rhan o gymuned’ ar ôl defnyddio’r gwasanaeth. Yn ogystal, dywedodd 95% o oroeswyr[3] mewn gwasanaethau lloches eu bod yn well yn ‘rheoli arian, ymgysylltu ag addysg/gwaith’.

Ymhellach, dywedodd 100% o oroeswyr[4] a roddodd adborth ar ein gwasanaeth IDVA bod eu diogelwch wedi cynyddu. Adroddodd 100% o oroeswyr hefyd fod pob math o gam-drin wedi lleihau neu ddod i ben; ac adrodd lleihad mewn risg o niwed pellach ar ddiwedd y gwasanaeth. Yn olaf, dywedodd 98%[5] fod ansawdd eu bywyd wedi gwella ar ôl defnyddio’r gwasanaeth IDVA.

### NODIADAU

1. Rhoddodd 35 o oroeswyr o blith 773 a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn 2018/19 adborth.
2. 28 o oroeswyr o blith 36 a gefnogwyd gan wasanaethau lloches yn 2018/19.
3. 21 o oroeswyr o blith 36 a gefnogwyd gan wasanaethau lloches yn 2018/19.
4. 52 o oroeswyr o blith 243 a gefnogwyd gan wasanaethau IDVA yn 2018/19.
5. 51 o oroeswyr o blith 243 a gefnogwyd gan wasanaethau IDVA yn 2018/19.

“Addysgiadol iawn. Cyflwynwyd yn dda iawn a gydag empathi. Pwnc anodd ond cafodd ei drin yn ofalus. Parch a dealltwriaeth o oroeswyr i'w weld yn y grŵp. Golwg dda iawn i rywun sy'n gweithio a gwell dealltwriaeth o gam-drin domestig.”

**- Dysgwr, 2019**

“Gwybodaeth drwy brofiad yn amlwg iawn yn yr hyfforddiant ac amhrisiadwy wrth gyflwyno deunydd pwnc o'r fath. Ymwybodol iawn o'r deunydd pwnc, yr effaith ar gyfranogwyr a mesurau a sefydlwyd i ymdrin ag unrhyw anawsterau sy'n codi. Sensitif iawn.”

**- Dysgwr, 2018**

## Partneriaeth Hyfforddi Genedlaethol

Mae Canolfan Rhagoriaeth Hyfforddi Cymorth i Ferched Cymru yn darparu cyrsiau hyfforddi achrededig a heb eu hachredu gan hyfforddwyr arbenigol.

Rydym ni'n cydweithio'n agos gyda gwasanaethau arbenigol ar draws Cymru i gyflwyno a chydlynu pecynnau hyfforddi ym mhob rhanbarth. Mae ein Partneriaeth Hyfforddi Genedlaethol yn bartneriaeth genedlaethol unigryw sy'n dod â gwasanaethau arbenigol sy'n darparu hyfforddiant, dysgu a datblygu ar bob agwedd ar drais yn erbyn menywod a phlant, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru at ei gilydd.

Yn 2018-19, cynhaliom ni 69 o sesiynau hyfforddi gan gefnogi dros 650 o ddysgwyr gydag amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau arbenigol, yn cwmpasu pob agwedd ar gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu, ymddygiad rheolaeth gymhellol, ymateb i drais yn erbyn menywod a merched, a rheoli risg yn gysylltiedig â cham-drin, stelcio a thrais ar sail anrhydedd.

Roedd y cyrsiau hyn yn ychwanegol i gyflwyno'r rhaglen hyfforddi genedlaethol “Gofyn a Gweithredu” i'r sector cyhoeddus mewn cydweithrediad â'r rhanbarthau. Rydym ni hefyd wedi'n trwyddedu i gyflwyno hyfforddiant y Coleg Plismona ar Faterion yn ymwneud â Cham-drin Domestig i heddluoedd ar draws Cymru. Rydym ni hefyd yn cynorthwyo sefydliadau gyda'u polisïau yn y gweithle i sicrhau eu bod yn darparu'r cymorth gorau i oroeswyr a'u teuluoedd. Roedd effaith yr hyfforddiant yn sylweddol.




“Dwyf i ddim mwyach yn derbyn y pethau dwyf i ddim yn gallu eu newid... rwyf i'n newid y pethau dwyf i ddim yn gallu eu derbyn.”

**- Angela Davis**

**O'r dysgwyr a gymerodd ran yn yr adborth manwl yn dilyn y cyrsiau (392 o ddysgwyr), adroddodd 91% o gyfranogwyr bod eu gwybodaeth wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn yr hyfforddiant, roedd 90% yn teimlo'n sylweddol fwy hyderus i ofyn ac ymateb i bryderon am gam-drin, ac adroddodd 88% o'r cyfranogwyr gynnydd yn eu sgiliau a'u galluoedd i ymateb i gam-drin yn eu rôl broffesiynol, ar ôl mynychu'r hyfforddiant.**

**Pan ofynnwyd am y profiad hyfforddi cyffredinol dywedodd 94% fod yr hyfforddiant yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol' a dywedodd 90% y byddent yn argymell yr hyfforddiant i eraill.**





“Rhaid i chi weithredu fel pe bai'n bosibl trawsnewid y byd yn radical. A rhaid i chi wneud hynny drwy'r amser.”

**- Angela Davis**

## Cefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus

Yn 2018/19, buom yn cynghori arweinwyr rhanbarthol ar ymarfer gorau wrth ddatblygu Strategaethau a Chynlluniau a hyrwyddo'r canllaw comisiynu statudol fel offeryn ymarfer da.

Parhaodd ein tîm data i gasglu data a llunio adroddiadau dadansoddi bob chwarter i'w rhannu gyda'r arweinwyr rhanbarthol a chenedlaethol a'u defnyddio i lunio darlun cyflawn o'r angen a'r galw am wasanaethau cymorth arbenigol.

Hefyd cynhaliom ni Gynhadledd lwyddiannus i Arweinwyr y Sector Cyhoeddus ar ran Llywodraeth Cymru. Treuliwyd llawer o'r diwrnod yn cefnogi ac yn hysbysu comisiynwyr ac arweinwyr strategol drwy brif siaradwyr a gweithdai wedi'u targedu.

Lluniom ni becyn cymorth yn canolbwyntio ar ddyletswyddau Byrddau Iechyd i atal, diogelu a chefnogi goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Roedd hwn yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer gweithredu canllawiau NICE a briffio ar gyd-leoli gwasanaethau, enghreifftiau o ymarfer addawol gan ein haelodau, adborth gan oroeswyr ac ymarfer addawol yn seiliedig ar ymchwil.

Eleni gweithiom ni gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi eu dysgu ynghylch ymddygiad rheolaeth gymhellol, stelcio ac aflonyddu. Hefyd ni sydd â thrwydded y Coleg Plismona i gyflwyno eu rhaglen 'Mae Cam-drin Domestig yn Bwysig' i heddluoedd ar draws Cymru a chefnogi ei chyflwyno yn Lloegr. Hefyd cefnogom ni bum cyflogwr mawr gyda datblygu a chyflenwi polisi yn y gweithle y llynedd.

Yn 2018-19 trefnom ni gyfres o ddigwyddiadau'n targedu gweithwyr proffesiynol ar draws Cymru.

Cynhaliom ni seminar cenedlaethol ar Gam-fanteisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol yn y gogledd a ddenodd 77 o gynrychiolwyr o awdurdodau lleol, yr heddlu, iechyd a'r trydydd sector yng Nghymru. Roedd y siaradwyr yn cynnwys arbenigwyr academaidd, Ymgynghorwyr Cenedlaethol, Rape Crisis England and Wales, gwasanaethau trais rhywiol lleol a'r NSPCC. Adroddwyd am faterion ymarfer a pholisi a gododd o'r seminar i'r Grwpiau Trawsbleidiol perthnasol ac arweinwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Hefyd cynhaliom ni seminar i hyrwyddo ymarfer gorau wrth gefnogi goroeswyr o gymunedau lleiafrifol y mae cam-drin rhywiol wedi effeithio arnyn nhw, mewn cydweithrediad ag Imkaan a chymorth arbenigol yng Nghymru i oroeswyr ac i droseddwyr.

Siaradom ni hefyd yn rali Cardiff Sisters for Solidarity; a rhedeg gweithdy ar aflonyddu rhywiol yn y digwyddiad Gofod 3 cenedlaethol, yn hyrwyddo polisïau effeithiol yn y gweithle a hyfforddiant ar draws sectorau.

Cynhaliwyd ein Cynhadledd Dyfodol 40 genedlaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth - i nodi'r lleoliad ble y cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol gyntaf Cymorth i Ferched Cymru dros ddeugain mlynedd yn ôl. Roedd y digwyddiad yn amlygu ymarfer addawol ac arloesi wrth ddarparu cymorth i oroeswyr lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LHDT*), goroeswyr hŷn a goroeswyr â statws mewnfudo ansicr. Roedd hefyd yn cynnwys cyflwyniadau gan oroeswyr a phobl ifanc.

“Agenda gwych, siaradwyr gwych. Diolch! Diolch am drefnu cynhadledd genedlaethol. Mae'n ddigwyddiad pwysig a gwerthfawr a rhaid iddo barhau bob blwyddyn.”

**- Mynychwr y Gynhadledd Genedlaethol**



“

Mae bod [yn oroesydd] ar SEEdS wedi cyflwyno cyfleoedd na fyddai fyth wedi codi fel arall. Dros y 12 mis diwethaf rwyf i wedi eistedd ar grwpiau Llywio ar gyfer 'Newid sy’n Para' ac ymgyrch ’40 Mlynedd 40 Llais’ a chynorthwyo datblygiad rhaglen ‘Llysgenhadon Gofyn i Fi’.”

**- Goroesydd, SEEdS 2019**

# Atal

## Gwaith gyda chymunedau a gwasanaethau - Newid sy’n Para

**Ymagwedd system gyfan at atal trais yn erbyn menywod a merched yw Newid sy’n Para. Y nod yw symud o ffocws unigol ar risg i ddechrau gyda chryfderau ac anghenion menywod a phlant, hwyluso’r llwybr byrraf neu fwyaf effeithiol at fodloni anghenion, i annibyniaeth a rhyddid rhag cam-drin. Mae Newid sy’n para hefyd yn symud y ffocws at y rheini sy’n cyflawni neu’n cydsynio â thrais gwryw yn erbyn menywod. Caiff rhwystrau at gyrchu hawliau a hawliadau eu lleihau neu eu dileu, caiff ymatebion asiantaethau a chyflogwyr eu gwella, a chaiff cymunedau gymorth i ddeall y rôl weithredol y gallant ei chwarae yn atal cam-drin.**

Yn 2018-19 cryfhawyd sail ein cynllun ar gyfer atal trais gwryw yn erbyn menywod a merched fydd yn helpu i ffurfio ein hymyriadau a’n gweithgareddau yn y dyfodol: Newid sy’n Para.

Gydag anogaeth tystiolaeth gynnar ar gyfer yr ymagwedd newydd hon, datblygom ni bartneriaethau newydd gyda Women’s Aid England, Respect ac eraill, gan sicrhau adnoddau’n canolbwyntio ar gyflawni trawsnewid i helpu aelodau i beilota’r dull hwn i adeiladu ymatebion o gwmpas anghenion goroeswyr a’r cryfderau a’r adnoddau sydd ar gael iddyn nhw.

Mae ein ffocws yng Nghaerdydd ar beilota’r model i ymdrin â phob math o drais gwryw yn erbyn menywod mewn cydweithrediad â Chymorth i Ferched Caerdydd a Chymru Ddiogelach. Rydym ni hefyd wedi cydweithio i ddatblygu ymagweddau newydd arloesol ar gyfer ymyrraeth gynnar gyda dynion sy’n awyddus i newid eu hymddygiad.

Mae ein trawsnewidiad mewn cymunedau lleol yn seiliedig ar ein rhaglen “Gofyn i Fi” sydd wedi’i chynllunio i wella ymateb y gymuned i oroeswyr cam-drin. Rydym ni’n hyfforddi aelodau o’r gymuned i ddod yn ‘llysgenhadon’ Gofyn i Fi i deimlo’n hyderus i ddechrau sgyrsiau a chanfod cyfleoedd i rannu eu gwybodaeth. Hefyd cânt eu hyfforddi ar sut i gefnogi a chyfeirio goroeswyr pe bai goroeswyr yn datgelu eu profiadau neu bryderon gyda nhw.

Yn dilyn y cynllun peilot llwyddiannus yn 2017/18 ym Mhowys, llwyddodd Cymorth i Ferched Cymru i sicrhau cyllid drwy Gronfa’r Dreth Tamponau i ehangu’r cynllun yn y canolbarth a’r gorllewin a chyflwyno’r cynllun yn y gogledd. Cawsom gyllid hefyd i ddatblygu’r cynllun i ddelio â phob math o drais yn erbyn menywod mewn cymunedau ac mae hyn yn cael ei beilota ar hyn o bryd yng Nghaerdydd gyda chyllid gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru. Caiff y peilot hwn ei werthuso’n allanol fel rhan o fodel cyflenwi ehangach Newid sy’n Para yng Nghaerdydd.




**Yn dilyn y peilot yn 2017/18, mae cynllun Caerdydd wedi hyfforddi 41 o lysgenhadon yn llwyddiannus hyd yma. Mae ein llysgenhadon yng Nghaerdydd wedi:**

- darparu 1,079 darn o lenyddiaeth VAWDASV i aelodau o’r gymuned
- cyrraedd 2,574 o aelodau’r gymuned drwy’r cyfryngau cymdeithasol
- siarad gyda 5,718 o aelodau’r gymuned drwy weithgareddau codi ymwybyddiaeth
- cyfeirio 87 o oroeswyr a 19 cyflawnwr at wasanaethau cymorth VAWDASV

“

Dwyf i ddim yn credu bod treisio’n anochel nac yn naturiol. Pe bawn i, fyddai gen i ddim rheswm i fod yma.”

**- Andrea Dworkin**

**4** sefydliad addysg uwch a phellach

## Gweithio gydag addysg uwch ac addysg bellach - Menter y Gwyliedydd

Nod Menter y Gwyliedydd yw hysbysu a grymuso myfyrwyr sy’n mynychu colegau a phrifysgolion ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys cydsyniad, herio stereoteipiau, a sut i adnabod ac atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn dilyn llwyddiant Cynllun Peilot Menter y Gwyliedydd yn 2017/18, parhaodd Cymorth i Ferched Cymru i ehangu a chefnogi’r gwaith partneriaeth gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr.

Gyda’n cymorth ni, mae 4 Sefydliad Addysg Uwch a Phellach yng Nghymru bellach wedi cyflwyno Menter y Gwyliedydd. Bydd cefnogaeth i brifysgolion yn parhau ac mae dyddiadau hyfforddi pellach wedi’u trefnu ar gyfer 2019/20 gyda sefydliadau sydd eisoes yn ymgysylltu, yn ogystal â rhai newydd i’r fenter.

“

Mae sesiynau’r gwyliedydd wedi fy ngwneud yn fwy ymwybodol o faterion pwysig yn y gymdeithas, yn benodol rhai sy’n ymwneud â thrais rhyngbersonol, a hefyd mae wedi fy nysgu sut i ymdrin â sefyllfaoedd a allai fod yn anodd mewn modd priodol. Mae’r sgiliau hyn yn amhrisiadwy a byddaf yn eu defnyddio drwy gydol fy mywyd.”

**- Mynychwr Gwyliedydd**

> Diolch i'r sesiynau fe sylweddolais i faint problem trais rhywiol a faint sydd ar ôl i'w wneud. Nawr rwy'n barod i weithredu. Rwy'n awyddus i helpu. Dyna beth ges i o'r sesiynau, mae'n rhaid i ni siarad."
>
> **- Mynychwr Gwyliedydd**

> Dychmygwch cymaint hapusach y byddem ni, faint yn fwy rhydd i fod yn ni ein hunain yn unigol, pe na bai pwysau disgwyliadau rhywedd arnom ni."
>
> **- Chimamanda Ngozi Adichie**

**148** gweithiwr proffesiynol

**16** corff

## Gweithio i hyrwyddo perthnasoedd iach

Mae rhaglen Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) Cymorth i Ferched Cymru yn gyfres o raglenni ymyrraeth gynnar ac atal i blant a phobl ifanc o 3 i 25 oed. Yn 2018-19 ehangom ni'r rhaglen i gynnwys pecyn Anghenion Dysgu Ychwanegol a hyfforddiant Hyfforddi'r Hyfforddwr, mewn cydweithrediad â Calan DVS. Cafodd yr adnodd ei beilota a'i werthuso gan Brifysgol De Cymru.

Y llynedd hyfforddom ni 148 gweithiwr proffesiynol o 16 corff i gyflwyno rhaglenni i grwpiau o blant a phobl ifanc.

Hefyd crëwyd pecyn cymorth i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl 16-25 oed nad ydyn nhw mewn addysg na hyfforddiant, i'w helpu i ymdrin â pherthnasoedd iach.

Hefyd cynhyrchwyd pecyn cymorth i weithwyr proffesiynol, sesiwn friffio a gweminar ar 'Online Abuse: The use of the digital world to perpetrate abuse'.

Yn ystod 2018/19 partnerodd Cymorth i Ferched Cymru gyda Phrifysgol Caerdydd, Comisiynydd Plant Cymru ac NSPCC Cymru i gwblhau a lansio'r adnodd Agenda Cynradd. Mae'r adnodd Agenda Cynradd am ddim i athrawon ac ymarferwyr addysg, ac yn dysgu plant 7 i 11 oed am amrywiaeth eang o bynciau yn ymwneud â pherthnasoedd a grymuso.

# Ein heiriolaeth strategol a dylanwad





### Polisi a dylanwad cenedlaethol

**Parhaodd Cymorth i Ferched Cymru yn llais ymgyrchu cryf yn 2018/19, yn cefnogi ymgyrchoedd yn cynnwys 'Amser ar Ben' a 'Nid cariad yw hwn, rheolaeth yw hwn' drwy ddigwyddiadau, blogiau, cyfryngau cymdeithasol a fideos.**

Roedd hyn yn cynnwys partneriaeth gyda Gŵyl Ffilm Ryngwladol Caerdydd, i hyrwyddo'r ymgyrch 'Amser ar Ben' yn y seremoni agoriadol a chau, yn ogystal ag ymgysylltu gyda chefnogwyr drwy gydol yr ŵyl. Hefyd parhaom ni i gyfrannu at gyfarfodydd panel cyfathrebu Llywodraeth Cymru a darparu adborth ar y cysyniadau ymgyrchu diweddaraf, a galwom ni'n llwyddiannus am yr angen i gael ymgyrch yn 2018/19 yn canolbwyntio ar anghydraddoldeb rhywedd fel achos a chanlyniad i drais yn erbyn menywod.

> Rwyf i am gael cadoediad o bedair awr ar hugain heb unrhyw dreisio. Heriaf chi i geisio. Rwy'n mynnu eich bod yn ceisio... Ac ar y diwrnod hwnnw, y diwrnod hwnnw o gadoediad, y diwrnod pan na chaiff yr un fenyw ei threisio, byddwn ni'n dechrau ymarfer gwir gydraddoldeb... byddwn ni am y tro cyntaf yn ein bywydau – yn fenywod a dynion – yn dechrau profi rhyddid."
>
> **- Andrea Dworkin**



Mae Cymorth i Ferched Cymru hefyd yn codi ymwybyddiaeth ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ein gwefan a'n llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Lansiwyd ein proffil Instagram newydd ddechrau 2018/19, sydd wedi'i ddefnyddio i hyrwyddo ymgyrchoedd a digwyddiadau i gynulleidfa ehangach.

Yn 2018-19 cynrychiolom ni wasanaethau a goroeswyr o Gymru ar Grwpiau Rhanddeiliaid cenedlaethol yn cynnwys Grŵp Trosolwg Cam-drin Domestig y Swyddfa Gartref, grwpiau rhanddeiliaid Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Hefyd darparwyd cyngor arbenigol i adrannau o Lywodraeth Cymru a chyfrannu at adolygiad Cafcass Cymru o'u Canllawiau Cam-drin Domestig i ymarferwyr, i helpu i wella profiadau goroeswyr a'u teuluoedd yn y System Cyfiawnder Teuluol.

Y llynedd ymatebom ni i 11 o ymgynghoriadau polisi Cymru a'r DU, yn cynnwys adborth gan oroeswyr a gwasanaethau arbenigol. Yn dilyn cyflwyno i'r ymgynghoriad, rydym ni wedi parhau i ymgysylltu â chlymblaid Bil Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr i ymgyrchu dros welliannau yn y gyfraith i oroeswyr cam-drin. Rydym ni'n sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn cael gwybodaeth lawn ar ddatblygiad y Bil.

Buom ni hefyd yn ymgyrchu ar amrywiaeth o faterion o bwys i wasanaethau arbenigol a goroeswyr, gan gynnwys ar effaith toriadau cyllid drwy ein hadroddiadau "Cyflwr y Sector" a'r angen am gyllid diogel, cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Er bod hyn wedi'i sicrhau mewn ymrwymiad Strategaeth Genedlaethol, arweiniom ni hefyd ar greu Pecyn Cymorth Comisiynu ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru, a bellach mae gennym ni ganllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru i atgyfnerthu hyn. Rydym ni'n parhau i hyrwyddo'r fframwaith Safonau Ansawdd ar gyfer gwasanaethau arbenigol yng Nghymru ymhlith comisiynwyr, ac maen nhw bellach hefyd yn cael eu crybwyll yng Nghanllaw Comisiynu Statudol Cymru.

Y llynedd fe gyfrannom ni at gam 2 yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywedd gan gynnig ymateb ysgrifenedig i ymgynghoriad Chwarae Teg ar y weledigaeth ar gyfer Cymru gyfartal o ran rhywedd ac ymgysylltu yn y grŵp ymgynghorol, gan sicrhau bod gan y sector a goroeswyr lais yn yr adolygiad.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda NSPCC Cymru, Plant yng Nghymru ac eraill drwy'r Gynghrair 'Sdim Curo Plant' roeddem ni'n gallu cyfrannu at gynnydd a wnaed i ddileu'r amddiffyniad cosb resymol, sydd bellach wedi'i gyhoeddi. Mae'r adroddiad ar gael yma: www.welshwomensaid.org.uk/removal-of-defence-of-reasonable-punishment-in-Cymru.


Bu Cymorth i Ferched Cymru yn ymgysylltu â thîm Polisi Diogelu Llywodraeth Cymru yn adolygu 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan' gan ymwneud yn benodol â phlant yn byw gyda cham-drin domestig. Cyfrannom ni i'r canllawiau ar gam-drin yn ymwneud â'r hyn a elwir yn Drais ar Sail Anrhydedd, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Priodas dan Orfod a dewiniaeth.

Cyfrannom ni hefyd yng Ngrŵp Arbenigol y Llywodraeth ac ymgyrchu'n llwyddiannus dros gynnwys mandadol Addysg Rhywioldebau a Pherthnasoedd yng nghwricwlwm newydd Cymru. Buom hefyd yn cydweithio gyda gwasanaethau ac arbenigwyr academaidd i lunio adnoddau ategol i athrawon mewn ysgolion i gyflwyno addysg berthnasol, i ategu ein gwaith yn hyrwyddo adnoddau AGENDA ac AGENDA Cynradd ar gydraddoldeb rhywedd, dan arweiniad pobl ifanc.

Yn rhyngwladol, rydym ni'n cynrychioli'r sector yng Nghymru ar WAVE (Women Against Violence Europe) a hefyd cyflwynom ni gyngor arbenigol i Gyngor Ewrop i lywio eu prosiect i wella ymatebion i drais yn erbyn menywod a merched yn Ffederasiwn Rwsia.

Ni sy'n arwain yng Nghymru ar Ymgyrch WAVE Ewrop 'Camu Mlaen!' 2019, sy'n ceisio cynyddu ymdrechion i atal trais yn erbyn menywod ar draws Ewrop yn defnyddio Confensiwn Istanbul drwy godi ymwybyddiaeth o'r ystyriaethau, gan ymgyrchu'n eang dros hawliau menywod a phlant i fyw bywyd yn rhydd rhag trais a diogelu goroeswyr benywaidd trais.

**I gydnabod bod goroeswyr cam-drin anabl yn wynebu rhwystrau ychwanegol sylweddol at gyrchu cymorth a chefnogaeth, bu Cymorth i Ferched Cymru'n cydweithio gydag Anabledd Cymru i gyhoeddi'r adroddiad "Cefnogi pobl anabl sy'n wynebu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru." Lansiwyd yr adroddiad yn y Cyd-Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant yng Nghynulliad Cymru. Ceir manylion llawn a'r argymhellion o'r adroddiad hwn ar ein gwefan www.welshwomensaid.org.uk/welsh-womens-aid-and-disability-Wales-report. Mae'r rhain nawr yn cael eu datblygu ar gyfer gweithredu gyda chomisiynwyr a gwasanaethau, yn 2019-20.**





Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi cynyddu, sydd wedi arwain at fwy o ymweliadau â'n holl dudalennau cyfryngau cymdeithasol (33% hoffi ar Facebook a 14% dilynwyr Twitter). Cafwyd cynnydd o 16,768 (13%) o ymweliadau â'n tudalennau gwe hefyd ers 2017/18.

## Monitro a dadansoddi data

**Bob blwyddyn mae Cymorth i Ferched Cymru yn darparu adroddiadau data chwarterol a blynyddol, sy'n cynnig dadansoddiad ac ystadegau ar y gwasanaethau a ddarperir i oroeswyr. Mae hyn yn rhan o'n system genedlaethol o gasglu data, sy'n amlygu gweithgaredd ac effaith gwasanaethau arbenigol yng Nghymru. Mae hyn wedi ein galluogi i amlygu'r galw am ein rhwydwaith o wasanaethau a'u heffaith a'r bylchau capasiti ynddynt i lywio asesiadau rhanbarthol o anghenion a datblygiadau strategaeth.**

**Yn 2018-19 cyhoeddom ni ein hadroddiad blynyddol Cyflwr y Sector ar ddydd Santes Dwynwen, 25 Ionawr, gan dynnu sylw at broblemau oedd yn wynebu ein haelodau mewn perthynas â heriau cyllido a chapasiti. Cylchredwyd yr adroddiad yn eang i Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau'r sylw ehangaf bosibl.**




## Llysgenhadon Cymorth i Ferched Cymru

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn hynod o ffodus i gael Llysgenhadon ymroddedig sy'n rhoi eu hamser i godi ymwybyddiaeth o VAWDASV yng Nghymru a hyrwyddo ein gwaith.**

**Yn ystod 2018/19 recriwtiodd Cymorth i Ferched Cymru ein pedwaredd Llysgennad Jocelyn Davies, Aelod Anweithredol o Fwrdd Awdurdod Refeniw Cymru.**

Drwy gydol y flwyddyn mae'r Llysgenhadon wedi cefnogi gwaith Cymorth i Ferched Cymru mewn amrywiol ffyrdd:

- Cadeiriodd Jocelyn Davies y Seminar Trais Rhywiol ar ran Cymorth i Ferched Cymru
- Cyflwynodd y siaradwr a'r ymgyrchydd Rachel Williams brif araith yng nghynhadledd Cymorth i Ferched Cymru a'r Sefydliad Tai Siartredig
- Bu Siân Harries yn hyrwyddo ein hymgyrch codi arian Cacen Gymreig, a hyrwyddo a chefnogi ein hymgyrch "Amser ar Ben" a'n gwaith i goffáu Santes Dwynwen bob blwyddyn, gan bwysleisio pwysigrwydd sefyll i ddileu cam-drin domestig mewn gwyliau comedi yng Nghymru
- Noddodd a siaradodd Jane Hutt yn lansiad Deugain Llais, Deugain Mlynedd yn Amgueddfa Sain Ffagan



# Cyllid ac adnoddau: helpwch ni i godi arian

**Bob blwyddyn, mae Cymorth i Ferched Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol. Mae copïau o'n gwybodaeth ariannol i'w gweld a'u lawrlwytho o'n gwefan. Ewch i: www.welshwomensaid.org.uk/about/finances/**

## Codwch arian i ni i gefnogi ein gwaith

Yn 2018/19, roeddem ni'n hynod o ddiolchgar am y £26,555 rhyfeddol a godwyd drwy roddion. Cafwyd rhoddion drwy amrywiaeth o brosiectau rhagorol yn amrywio o gynhyrchiad o'r Vagina Monologues, i Ymgyrch Cacennau Cymru Cymorth i Ferched Cymru, i gefnogwyr yn rhedeg hanner Marathon Caerdydd ar ein rhan. Roeddem ni'n ddiolchgar iawn i Sefydliad Siartredig Tai Cymru, a barhaodd i godi arian i ni, gyda chyfanswm yr arian a godwyd bellach dros £11,500. Rydym ni'n falch iawn y bydd y bartneriaeth hon yn parhau yn 2019/20.

Yn 2019-20 rydym ni'n edrych ymlaen at weithio gydag Arglwydd Faer Caerdydd fel un o'i ddewis Elusennau'r Flwyddyn – helpwch ni i gefnogi'r fenter gyffrous hon drwy godi arian i ni: https://www.justgiving.com/campaign/CardiffLordMayorAppeal-WelshWomensAid

Os hoffech gefnogi ein gwaith yn genedlaethol, gallwch weld syniadau i'ch ysbrydoli neu fanylion cyswllt i drafod ymhellach yn www.welshwomensaid.org.uk/support-us/

## Ymunwch â ni

Mae sawl ffordd y gallech gymryd rhan yn ein gwaith i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Pa un a ydych chi am ddod yn gefnogwr, yn wirfoddolwr, yn aelod neu weithio gyda ni; gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth. I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan: www.welshwomensaid.org.uk/join-us/

> "Rwy'n credu mai pwysigrwydd gwneud gwaith actifydd yw ei fod yn gadael i chi roi'n ôl ac ystyried eich hun nid fel unigolyn a allai fod wedi cyflawni rhywbeth ond bod yn rhan o fudiad hanesyddol parhaus."
>
> **- Angela Davis**

## Aelodau

## Cyllidwyr

# Diolch i'n holl cyllidwyr

## Am fwy o wybodaeth:

**www.welshwomensaid.org.uk**

**info@welshwomensaid.org.uk**

**© Cymorth i Ferched Cymru**

**Tachwedd 2019**

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid